Cynllun Ysgoloriaeth PhD (Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) 2019-2020

Trosglwyddwyd holl bapurau y Dr Meredydd Evans a'i briod, Mrs. Phyllis Kinney (Cwmystwyth) i ofal Adran Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Mai 2017. Yn ddiweddar, penodwyd archifydd i ddidoli a mynegeio'r casgliad sylweddol hwn er mwyn i'r cyhoedd gael ei ddefnyddio i bwrpas ymchwil.

Nod a bwriad y cais ar gyfer Ysgoloriaeth PhD (Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) o Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor fydd canolbwyntio ar **un** agwedd benodol o'r papurau hyn. Isod, nodir rhai o'r meysydd sy'n rhan amlwg a chreiddiol o'r casgliad:

- Dr. John Lloyd Williams (Bangor ac Aberystwyth) a byd yr alaw werin yng Nghymru
- 'Yr alaw werin ar ei thaith', sef fersiynau amrywiol o alawon gwerin a gasglwyd ac a gofnodwyd gan Meredydd Evans a Phyllis Kinney
- Casgliadau cyhoeddedig o gerddoriaeth draddodiadol Cymru'r 19eg ganrif
- Casglyddion cynnar y traddodiad brodorol yng Nghymru
- Canu Penillion – y dystiolaeth lenyddol a hanesyddol
- Offerynnau traddodiadol: y crwth a'r delyn

Bwriedir cynnig yr ysgoloriaeth (3 blynedd) mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar delerau tebyg i ysgoloriaethau'r 'Collaborative Doctoral Awards' The Arts & Humanities Research Council. Bydd yr ymchwilydd yn derbyn goruchwyliaeth a chyfarwyddyd gan aelod o staff o Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor ond bydd ef/hi wedi ei leoli/lleoli am dair blynedd yn y Llyfrgell yn Aberystwyth ac yn derbyn cymorth pellach gan aelodau staff y sefydliad hwnnw yn ogystal. Cytunodd awdurdodau'r Llyfrgell i dalu 50% o gost yr ysgoloriaeth dros gyfnod o dair blynedd.

Cyn cyflwyno'r cais ym mis Chwefror 2019, bydd y Panel Goruchwylio (Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yn dewis un maes arbennig fydd yn sail i'r astudiaeth ddoethurol.

Wyn Thomas
Tachwedd 2018